

CYFLWYNIAD

Mae cynhyrchu perlyisiau organig yn faes eang gydag amrywiaeth fwy fyth o gynhyrchion posibl, marchnadoedd a thechnegau tyfu. Bu twf trawiadol o 124% yng nghyfanswm marchnad y Deyrnas Unedig am berlyisiau ffres rhwng 2000 a 2005, ac amcangyfrifir yn awr ei fod yn werth £38 miliwn. Daw tua £4 miliwn o hynny o ddeunyddiau crai organig; gwaetha'r modd mae 90% o berlyisiau organig yn cael eu mewnforio ar hyn o bryd. Mae agor marchnad y Deyrnas Unedig trwy gael rhagor o dyfwyr perlyisiau organig yn bwysig er mwyn lleihau'r 'milltiroedd awyr' y mae ein bwyd yn eu teithio.

Mae'r daflen hon yn canolbwyntio ar dyfu perlyisiau organig mewn potiau i'w gwerthu mewn siopau yng Nghymru.

LLUOSOGI

Defnyddir tri phrif ddull ar gyfer lluosogi perlyisiau:

- Ymrannu: - Gellir codi a rhannu perlyisiau sy'n ffurfio clystyrau, fel cennin syfi, balm lemon a them, yn y gwanwyn neu'r hydref. Mae hon yn ffordd ddefnyddiol o gynhyrchu stoc a chadw planhigion yn iach.
- Toriadau: - Gellir lluosogi perlyisiau coediog lluosflwydd fel rhosmari, saets a them o doriadau. Cymerwch doriadau rhwng diwedd y gwanwyn a dechrau'r hydref. Torrwch sbrigyn 7cm i ffwrdd, tynnwch y dail i ffwrdd o hanner isaf pob toriad a gwthiwch 3 thoriad i mewn o gwmpas ymyl pot 8cm wedi ei lenwi â chompost toriadau. Unwaith y byddwch wedi ei ddyfrio, gosodwch yn y tŷ gwydr / twnnel polythen.
- Hadau: - Cynhyrchu perlyisiau o had yw'r dull mwyaf effeithiol fel arfer a'r mwyaf cost-effeithiol o bosibl. Mae llawer o fasnachwyr hadau a chanolfannau gardd yn cadw stoc o hadau perlyisiau organig.



Eginblanhigion perlyisiau

Mae llawer o berlyisiau fel basil, coriander ac oregano yn tyfu'n dda mewn compost amlbwrpas fel Fertile Fibre (compost organig di-fawn a wneir o ffibr cnau coco) a chompost hadu a photio West Riding Organics.

MATHAU O BERLYSIAU

Mae amrywiaeth eang o berlyisiau coginio i'r tyfwr ddewis ohonynt. Mae'r rhai a dyfir amlaf a'r mwyaf gwerthadwy yn cynnwys:

- Basil: - perlysiuyn poblogaidd iawn gyda dibenion meddyginiaethol yn ogystal ag wrth goginio. Mae'r holl fathau'n tyfu'n dda o had ac ar gael yn helaeth. Mae *Ocimum basilicum* 'dark opal' a *Genovese* yn boblogaidd iawn. Cynaeafwch trwy gasglu'r dail a'r blodau drwy gydol yr haf.
- Mintys: - perlysiuyn llwyddiannus iawn, sy'n gyffredin drwy Ewrop i gyd. Gellir rhannu mintys yn 'fintys clasurol', 'mintys poethion' a 'mintys ysbigog'. Y ffordd orau o dyfu mintys yw trwy gymryd toriadau o'r gwreiddiau yn yr hydref neu'n gynnar yn y gwanwyn. Yr unig broblem o bwys yw rhwd mintys, os yw hyn yn digwydd rhaid codi'r planhigion a'i ddifa. Cynaeafwch trwy gasglu'r dail cyn iddo flodeuo.
- Teim: - perlysiuyn prydfarth iawn gydag arogl a blas cryf. Gall fod yn 'unionsyth', yn 'ymledol' neu'n 'dwmpathog'. Gellir casglu teim trwy gydol y flwyddyn ac mae'n sychu'n dda iawn. Mae teim yn tyfu'n dda o had ond mae angen ei ddyfrio'n ofalus gan nad yw'n hoffi bod yn wlyb iawn.

- Cennin syfi: - aelod adnabyddus iawn o deulu'r nionyn/winwnsyn. Mae'n tyfu'n dda mewn cynhwysydd, ond mae angen ei ddyfrio'n rheolaidd. Cynaeafwch trwy gydol y tymor tyfu.
- Coriander: - perlysiuyn diddorol gan fod blas gwahanol i'r hadau a'r dail a gellir bwyta'r planhigyn i gyd. *Coriandrum sativum* yw'r math mwyaf cyffredin gan ei fod yn tyfu'n dda o had. Cynaeafwch y dail o ddiwedd y gwanwyn hyd ddiwedd yr haf, nid ydynt yn cadw'n dda. Cynaeafwch hadau o'r haf ymlaen.

Gan ddibynnu ar ba mor agos ydynt at y marchnadoedd, gall fod cyfle i dyfwyr gynhyrchu perlysiâu mwy egsoftig ar gyfer grwpiau penodol o ddefnyddwyr. Mae ymchwil i'r farchnad leol yn bwysig er mwyn asesu'r dewisiadau gorau i bob cynhyrchwr.

TECHNEG AU TYFU

Potiau: - mae'r mwyafrif o berlysiâu'n tyfu'n dda mewn potyn o faint addas. Mae Safonau Organig ¹*The Soil Association* yn mynnu bod yn rhaid i berlysiâu a dyfir mewn potiau gael eu gwerthu mewn cyfrwng tyfu sy'n cynnwys o leiaf 51% o ddefnydd sy'n deillio o systemau cynhyrchu organig. Rhaid i'r cynwysyddion ddraenio'n dda a bod o faint sy'n addas i'r planhigyn. Dylid rhoi ystyriaeth i'r ffordd y bydd y perlysiâu'n cael eu cyflwyno ar gyfer eu gwerthu er mwyn sicrhau y bydd y potiau'n gydnaws â chyflwyniad y cynnyrch terfynol. Bydd llawer o berlysiâu ar gael i'w gwerthu ar ôl 8 wythnos (os tyfir hwy o had).

Gwely wedi'i godi: - mae'n haws edrych ar ôl perlysiâu mewn gwely wedi'i godi, yn hytrach na gwelyau ar lefel cae. Os oes gennych bridd clai trwm, mae adeiladu gwely wedi'i godi yn cynnig cyfle da i greu'r pridd ffrwythlon wedi'i ddraenio'n dda y mae ar berlysiâu ei angen.

Twneli cae/polythen: - ²oherwydd y llafur sydd ei angen ar gyfer arwynebeddau mwy (mwy nag 1 hecтар) mae angen cynhyrchu mecanyddol. Bydd cynhyrchu ar raddfa cae yn golygu'r angen fel arfer am ryw lefel o brosesu ac mae hyn yn gost ychwanegol (gweler taflen dechnegol ar wahân).

CYNAEAFU A PHROSESU

Mae perlysiâu a werthir mewn potiau'n haws i'w marchnata a'u cludo na pherlysiâu wedi'u torri. Mae torri perlysiâu'n byrhau bywyd silff y cynhyrchion ac mae'n golygu'r angen am offer prosesu / pecynnu sy'n ychwanegu amser, llafur a chost i'r gwaith cynhyrchu.

Bydd y ffordd y bydd perlysiâu mewn potiau'n cael eu cyflwyno i'r cwsmer yn cael effaith sylweddol ar eu gwerth manwerthu. Gall buddsoddi ychydig o amser ac arian ychwanegol i'w cyflwyno a'u pecynnu'n ddeniadol arwain at gynnydd sylweddol mewn gwerth manwerthu.

Mae ail Nodyn Technegol yn cael ei baratoi sy'n edrych ar yr economeg a'r technegau cynhyrchu sy'n cael eu datblygu gan brosiect Perlysiâu Organig Cymreig CALU.

Nodiadau:

¹ *Soil Association Organic Standards. Fersiwn 15 Ebrill 2005 5.2.15/5.2.16*

² *Soil Association. Adran Bwyd a Ffermio. Papur briffio perlysiâu organig Ionawr 2004*



Pecyn o chwech o berlysiâu yn barod i'w gwerthu